County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

# AGENDA

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL |
| **Dyddiad ac amser y cyfarfod** | DYDD MERCHER, 19 GORFFENNAF 2017, 5.20 PM |
| **Lleoliad** | YSTAFELL BWYLLGORA 4 - NEUADD Y SIR |
| **Aelodaeth** | Cynghorydd McGarry (Cadeirydd)<br>Y Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Carter, Goddard, Jenkins, Kelloway a/ac Lent |

Tua Amser.

**1 Penodi Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor** 5.20 pm

Penodwyd y Cynghorydd Mary McGarry yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn a’r canlynol yn aelodau’r pwyllgor yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 25 Mai 2017:

Y Cynghorydd Ali Ahmed, Y Cynghorydd Asghar Ali, Y Cynghorydd Joe Carter, Y Cynghorydd Susan Goddard, Y Cynghorydd Shaun Jenkins, Y Cynghorydd Kathryn Kelloway, Y Cynghorydd Sue Lent.

**2 Cylch Gorchwyl**

Craffu, mesur a hybu gwelliant ym mherfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes gwasanaethau cymunedol ac oedolion, gan gynnwys:

- Tai Cyhoeddus a Phreifat
- Grant Cyfleusterau i’r Anabl
- Diogelwch Cymunedol
- Adnewyddu Cymdogaethau a Chymunedau’n Gyntaf
- Cyngor a Budd-daliadau
- Amddiffyn Defnyddwyr
- Strategaeth Pobl Hŷn
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Gwasanaethau Gofal Cymunedol
- Iechyd Meddwl a Nam Corfforol
- Strategaeth Comisiynu

- Partneriaeth Iechyd

Asesu effaith ein partneriaethau gyda, adnoddau a gwasanaethau a gynigir gan sefydliadau allanol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

Gweithredu fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn y Cyngor yn ôl Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 ac unrhyw ailddeddfiad neu ddiwygiad ohoni; a fel dirprwy i'r Cyngor, arfer ei bwerau a'i swyddogaethau a ganiateir dan y Ddeddf.

**3 Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau.

**4 Datgan Buddiannau**

I'w gwneud ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

**5 Cofnodion** *(Tudalennau 1 - 14)*

Cadarnhau bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2017 a 8 Mawrth 2017 yn gywir.

**6 Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2017-18** *(Tudalennau 15 - 114)* 5.20 pm

a) Bydd y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet dros Tai a Chymunedau, yn cael ei gwahodd i wneud datganiad bras;

b) Bydd Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cymunedau a Thai, Colin Blackmore, Rheolwr Gwella Adeiladau, a Dave Jaques, Rheolwr Datblygu Tai, yn bresennol i roi cyflwyniad ac ateb cwestiynau'r Aelodau;

c) Cwestiynau gan y Pwyllgor

**7 Polisi Gorfodi Awdurdod Trwyddedu Sengl** *(Tudalennau 115 - 160)* 6.05 pm

a) Bydd y Cynghorydd Lynda Thorne, Aelod Cabinet dros Tai a Chymunedau, yn cael ei gwahodd i wneud datganiad bras;

b) Bydd Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Isabelle Bignall, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cwsmeriaid ac Angharad Thomas, Arweinydd Grŵp

Rhentu Doeth Cymru yn bresennol i roi cyflwyniad ac i ateb cwestiynau'r Aelodau;

c) Cwestiynau gan y Pwyllgor

**8 Adroddiad Rhaglennu Gwaith** *(Tudalennau 161 - 164)* 6.50 pm

a) Bydd Nicola Newton, y Prif Swyddog Craffu, yn cyflwyno'r adroddiad yn fras.

b) Cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

**9 Y Ffordd Ymlaen** 7.00 pm

**10 Dyddiad y cyfarfod nesaf**

6 Medi 2017 am 4.30pm

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Dyddiad: Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2017
Cyswllt: Andrea Redmond, 029 2087 2434, a.redmond@caerdydd.gov.uk